Sut i ddod yn ofalwr maeth

www.siryfflint.gov.uk/maethu
01352 702190

maethu yn Sir y Fflint

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

beth yw maethu?

Gallwch wneud gwahaniaeth i fywyd plentyn lleol heddiw

Drwy rannu eich cartref, gallwch gynnig bywyd heb esgeulustod a chamdriniaeth i blant neu roi cyfle i'w teulu ddatrys eu problemau.

Rhywun sy'n gofalu am blant pan nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd eu hunain yw Rhiant Maeth. Gall y cyfnod o ofal amrywio o ychydig o ddyddiau i ychydig o flynyddoedd. Mae maethu'n gallu cynnwys edrych ar ôl plant o bob oedran, o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau. Gallwch ddewis pa oedran fyddai orau i'ch teulu. Rydym yn argymell eich bod yn maethu plant sy'n iau na'ch plentyn hynaf.

Nid yw'n hawdd, ond fe all fod yn un o'r pethau gorau a wnewch chi erioed gyda'ch ystafell sbâr.

sut ydw i'n dod yn rhiant maeth?



pwy sy'n gallu maethu?

YSTAFELL SBÂR: Rhaid i chi gael ystafell sbâr yn eich cartref. Dim ond brodyr a chwiorydd neu blant dan 5 oed o'r un rhyw all rannu ystafell. Mae cynlluniau maethu arbenigol yn gofyn am ddwy ystafell sbâr.

AMSER AC EGNI: Bydd angen amser arnoch i fynychu cyrsiau hyfforddi a cyfarfodydd ac i gasglu plant o'r ysgol neu amser sbâr rheolaidd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallwch barhau i weithio'n rhan amser neu'n llawn amser. Mae'n rhaid i un person fod gartref yn ystod y dydd i ofalu am blant o dan bum mlwydd oed neu blant sydd ar gynllun arbenigol.

OED: Mae'n rhaid i chi fod yn ddigon hen i fod yn ffigwr rhiant priodol, ond does dim terfyn oedran.

PERSONOLIAETH: Bydd angen i chi fod â phenderyfniad ar gyfer yr adegau da a'r adegau anodd, a bydd angen synnwyr digrifwch arnoch.

IECHYD: Mae'n rhaid i chi ofalu am eich iechyd eich hun. Ni fydd plant o dan bum mlwydd oed yn cael eu lleoli gydag unrhyw un sy'n ysmygu. Ni fyddwch yn cael eich eithrio os ydych dros eich pwysau neu os oes gennych salwch, ond mae'n rhaid i chi fod yn ddigon iach i fedru cynnig cartref sefydlog, gofalgar.

DEWISWCH YSTOD OEDRAN SY'N BRIODOL I'CH TEULU: Os oes gennych blant, rydym yn eich argymell i faethu plant sy'n iau na'ch plentyn hynaf yn y cartref. Gallwch fod â phlant sy'n dal i fyw gartref, plant sydd wedi tyfu ac wedi gadael cartref neu gallwch fod heb unrhyw blant eich hun.

PERTHYNAS SEFYDLOG: Gallwch fod yn sengl, yn briod, wedi ysgaru, yn bartner sifil neu'n byw gyda phartner. Rhaid i chi fod mewn perthynas ers 2 flynedd neu fwy. Gallwch fod o unrhyw deuddiad rhywiol.

DIM EUOGFARNAU AM DROSEDDAU TREISGAR NEU DROSEDDAU YN ERBYN PLANT:
Mae'n rhaid i chi gytuno i gael gwiriad gan yr heddlu a rhaid i chi beidio â bod ag unrhyw gollfarn am drais yn y teulu neu gam-drin rhywiol neu gollfarn yn erbyn plant.



GOFALWYR EGWYL FER

maent yn derbyn plentyn ag anabledd (oedran 5 - 19 mlwydd oed) yn rheolaidd dros nos ar benwythnosau ac wythnos o wyliau dros nifer o flynyddoedd. Mae'r plant yn byw gartref gyda'u teuluoedd.

RHIENI MAETH CYFFREDINOL

yn gofalu am blant (0 – 18 mlwydd oed). Y nod yw iddynt ddychwelyd at eu teuluoedd biolegol, cael eu mabwysiadu gan deulu newydd neu, os nad yw'r plentyn yn gallu symud yn ôl gartref, i'r rhiant maeth ei gefnogi nes y bydd yn tyfu'n oedolyn.

GOFALWYR SEIBIANT

maent yn helpu rhieni maeth llawn amser er mwyn iddyn nhw gael seibiant a bod yn deulu estynedig i'r plentyn. Gallan nhw hefyd gynnig lle diogel i blentyn aros mewn argyfwng neu dros gyfnod byr i helpu teulu.

CYNLLUNIAU MAETHU ARBENIGOL

Mae gofalwyr maeth sy'n rhan o gynlluniau maethu arbenigol yn gofalu am blant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol. Mae angen grym ewyllys a phenderfyniad ar y gofalwyr hyn. Disgwylir iddynt gynnig sefydlogrwydd i'r plant yn ystod amseroedd da a drwg. Bydd angen dwy ystafell wely ar ofalwyr maeth sy'n rhan o gynlluniau arbenigol a bydd disgwyl iddynt fynychu hyfforddiant ac ennill cymwysterau NVQ. Rhaid i un gofalwr fod ar gael drwy'r amser. Rhoddir tâl blynyddol a lwfansau i'r gofalwyr.

- Mae gofalwyr maeth plant yn eu harddegau yn gofalu am ddau unigolyn ifanc 11 – 18 oed
- Mae gofalwyr therapiwtig yn gofalu am ddau o blant 0 – 18 oed sy'n derbyn cymorth arbenigol gan therapyddion plant a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Mae gofalwyr maeth brodyr a chwiorydd yn gofalu am 3 neu fwy o blant 0 – 18 oed, sydd fel arfer yn frodyr a chwiorydd.
- Mae gofalwyr seibiant yn cynorthwyo gofalwyr llawn amser sy'n rhan o gynlluniau arbenigol.

beth yw'r gwahanol fathau o faethu?